cwmpawd

eglwys efengylaidd gymraeg caerdydd



Rhif 64
Rhagfyr 2011

Golygyddol

Gwynn Williams

'Lleufer dyn yw llyfr da' - medd y ddihareb Gymraeg. Ystyr 'lleufer' yw goleuni. Mae darllen yn rhan o waith beunyddiol rhai o ddarllenwyr *Cwmpawd*, ac mae eraill siwr o fod ers plentyndod yn ddarllenwyr o fri. Ond nid felly pawb. I lawer yng nghanol bywydau prysur mae'n anodd weithiau, cael amser ac ynni i ddarllen llyfr. Ar wyliau mae'n bosibl y darllenwn lyfr ysgafn fel diddanwch neu efallai ryw fywgraffiad o berson adnabyddus, ond yn gyffredinol mewn bywyd efallai mai ychydig a ddarllenwn. Mae'r Cristion i fod yn berson sydd yn darllen - yn darllen ei Feibl o leiaf. Ond mae darllen llyfrau eraill hefyd yn fuddiol iawn i'r bywyd Cristnogol. Er engraifft, gallwn ddarllen esboniad syml yn gyfochrog â'n darllen o'r Beibl; darllen llyfr am waith cenhadol; neu efallai lyfrau am fywydau saint y gorffennol. Profiad saint y canrifoedd yw fod darllen llyfrau Cristnogol yn help ac yn sialens i'w ffydd.



Os nad ydym yn ddarllenwyr mawr, ond eto yn awyddus i fynd ati, pa gyfarwyddyd sydd? Mae'n ddoeth peidio bod yn rhy uchelgeisiol i ddechrau. Nid oes dim sydd yn digalonni dyn yn fwy na dechrau ar lyfr mawr a chael fod y diwedd yn hir yn dod. Llawer gwell yw darllen llyfr cymharol fyr i ddechrau a chael yr ymdeimlad o fod wedi cyflawni rhywbeth pan ddown at ei ddiwedd. Heddiw wrth gwrs mae toreth o lyfrau diddorol a buddiol sydd heb fod yn rhy hir. Yna wedi dysgu cropian gyda llyfr byr, gallwn drio cerdded gyda chyfrol fwy cyn rhedeg gyda champweithiau'r cewri.

Awgrym arall yw ceiso gosod amser penodol i ddarllen; hynny yw, rhoi tipyn o ddisgyblaeth ar fywyd. Eto rhaid bod yn ddoeth yma - dechrau gyda chyn lleied efallai â chwarter awr y dydd ac yna fel y daw blas ar y darllen cynyddu yr amser yn araf bach fel y mae galwadau eraill bywyd yn caniatau. Awgrym arall yw cael cornel dawel o'r tŷ gyda chadair gyffyrddus ynddi - ond ddim yn rhy gyffyrddus rhag ofn i ni gwympo i gysgu!!

Mae llawer o eglwysi yn mabwysiadu gwahanol ddulliau i geisio perswadio eu haelodau i ddarllen. Er mwyn ein hannog ni fel eglwys rydym fel henuriaid yn mynd i awgrymu llyfr bob mis; llyfr y byddwn i gyd gobeithio, yn gwneud ymdrech i'w ddarllen o fewn y mis priodol, ac yna cawn gyfle i'w drafod gyda'n gilydd mewn ysgol sul neu gwrdd wythnos.

Pob hwyl gyda'r darllen.



Llyfr mis Rhagfyr:
Dr D. Martyn Lloyd-Jones,
Eryl Davies
Evangelical Press

Brenin anghyffredin

Luc 1: 26 - 38

Lewis Roderick

Yn y chweched mis anfonwyd yr angel Gabriel gan Dduw i dref yng Ngalilea o'r enw Nasareth.

Duw sy'n ganolog i'r Nadolig – nid ni. Nid yr amser teuluol, na'r anrhegion, na'r twrci yw'r pethau pwysig, ond y ffaith bod Duw wedi gwneud rhywbeth. Ond beth wnaeth e?

Fe anfonodd e angel i dref fach hollol ddinod o'r enw Nasareth. Ond, arhoswch funud. Beth sy'n dod i'ch meddwl chi pan glywch chi'r gair 'angel'? Ai rhywun bach ciwt, gydag adenydd a dillad sgleiniog? Na, pan fydd angel yn ymddangos yn y Beibl bydd dynion cryf a dewr yn crynu ac yn crio. Dyna pam mai geiriau cyntaf angel yn aml iawn yw, 'Paid ag ofni'.

Ac mae'r angel yn ymddangos i ferch ifanc, tua 13 oed, er mwyn dweud wrthi ei bod hi'n mynd i fod yn fam! Mae'n siŵr bod hynny ynddo'i hun wedi bod yn ddigon o sioc iddi, ond ystyriwch beth mae'n ei ddweud wrthi am y bachgen bach fydd hi'n ei eni:

i) Bydd e'n Frenin anghyffredin
ii) Bydd ei enedigaeth yn anghyffredin
iii) Mae e wedi dod ar gyfer pobl gyffredin!

i) Bydd e'n Frenin anghyffredin

Yn aml iawn yn y Beibl bydd genedigaeth rhywun arbennig yn cael ei ragfynegi. Rydyn ni'n darllen am dristwch gwraig o'r enw Hannah am nad oedd hi'n gallu cael plant. Ond mae Duw yn addo y byddai'n cael plentyn ac y byddai ei mab, Samuel, yn broffwyd nodedig. Mae'r un peth yn digwydd i gwpwl di-blant arall, Elisabeth a Sachareias. Roedd hi'n rhy hen i gael plant ond mae angel yn addo y byddant yn cael

i bobl gyffredin!

plentyn, sef Ioan Fedyddiwr. Yn ôl Iesu Grist, fe oedd y proffwyd mwyaf. Mae yma batrwm - Duw yn addo genedigaeth, ac mae'r addewid yn cael ei gyflawni. Mae dynion arbennig yn cael eu geni - proffwydi, athrawon ac arweinwyr crefyddol. Byddai'r dynion hyn yn dysgu pobl am Dduw.

Mae'n ymddangos mai dyma sy'n digwydd pan anfonwyd yr angel Gabriel at Mair; *Wele, byddi'n beichiogi yn dy groth ac yn esgor ar fab, a gelwi ef Iesu.* Roedd yr enedigaeth yma'n mynd i fod yn wyrthiol, nid am fod Mair yn rhy hen i gael plant, ond am nad oedd hi wedi cael cyfathrach rywiol. Ac roedd gwahaniaeth mawr arall hefyd. Roedd y plentyn yma'n mynd i fod yn arbennig, ond nid am ei fod yn broffwyd, ond am ei fod yn Dduw. Roedd yr holl broffwydi ddaeth cyn Crist yn pwyntio ymlaen ato fe. Roedden nhw'n siarad ar ran Duw, ond roedd Iesu'n siarad fel Duw ei hun. Dywedodd yr angel, '*Gelwir y plentyn a genhedlir yn sanctaidd, Mab Duw.*' Roedd Duw ei hun yn mynd i ddod i'r byd fel babi bach. Does dim pellter mwy na'r pellter rhwng gorsedd yn y Nef a phreseb brwnt ym



llun: www.freeimages.co.uk

Methlehem. Ond roedd Iesu'n fodlon mynd mor bell â hynny. Roedd y Duw sydd wedi creu'r haul yn mynd i wybod beth oedd teimlo'n rhy boeth dan wres yr haul ganol ddydd!

Pam ydyn ni'n cofio rhywun a anwyd 2000 o flynyddoedd yn ôl? Mae'n gwestiwn digon teg, os oedd Iesu Grist yn ddim byd ond proffwyd, athro ac arweinydd. Mae llawer o athrawon ac arweinwyr da wedi bod yn hanes y byd yma. Pam ydyn ni'n cofio genedigaeth Iesu yn hytrach nag Einstein neu Ghandi, dyweder?

ii) Mae ei enedigaeth yn anghyffredin

Ganwyd Iesu i ferch gyffredin o'r enw Mair. Roedd hi wedi dyweddïo i Joseff ond doedd hi ddim wedi cael cyfathrach gyda dyn eto. Ydyn ni wir yn credu bod hyn yn bosibl? Dyna mae'r Beibl yn ei ddysgu'n glir.

Cafodd hyn ei addo yn y Beibl trwy'r proffwyd Eseia 700 o flynyddoedd yng nghynt. Ond, efallai eich bod chi'n ei chael hi'n anodd iawn i gredu hyn i gyd. Wel, ar eich cyfer chi mae Luc wedi ysgrifennu. Meddyg oedd Luc. Aeth ati i ymchwilio

i'r ffeithiau ynglŷn â Iesu Grist. Mae'n holi a chroesholi llygaddystion er mwyn bod yn sicr bod pob tystiolaeth yn dal dŵr. Gallwn ymddiried yn yr hyn mae Luc wedi ei gofnodi. Mae'n ysgrifennu'r peth fel hanes ac nid fel chwedl. Efallai nad ydyn ni'n deall y peth, ond mae'r Beibl yn dysgu bod popeth yn bosibl gyda Duw. Mae Luc eisiau i ni gredu bod Duw yn dod yn gnawd mewn babi bach yng nghroth merch ifanc.

iii) Mae wedi dod ar gyfer pobl gyffredin

Felly Duw mewn corff yw Iesu Grist. Dyma'r un pwysicaf erioed a gerddodd ar y ddaear. Ond pam ddaeth e i fywyd o dlodi? Pam na ddaeth e at deulu brenhinol - onid dyna oedd e'n ei haeddu? Mae'n rhyfedd iawn mai mewn lle brwnt gyda'r anifeiliaid y cafodd ei eni, ac nid mewn palas. Yn Nasareth, nid yn Jerwsalem neu Rufain. I ferch ifanc dlawd, ac nid i dywysoges.

Dyna'r patrwm ar gyfer bywyd Iesu. Roedd e'n ymwneud â phobl gyffredin, y rhai ar ymylon cymdeithas, y rhai tlawd, y rhai sâl ac anghenus. Roedd e'n fodlon closio at bobl yr oedd eu bywydau mewn llanast llwyr. Roedd y bobl yma angen help.

A dyna newyddion da'r Nadolig. Fe ddaeth Iesu ar gyfer y rhai sydd yn gwybod eu bod nhw wedi methu a'u bod nhw angen cymorth. Mae Iesu wedi dod at y rhai sy'n gwybod rhywbeth am syched ysbrydol. Nid dod ar gyfer pobl arbennig wnaeth e, ond pobl gyffredin fel chi a fi.

Fe ddaeth y Brenin i'n hachub ni o gosb ein pechod.

Fe ddaeth y Brenin i warchod ei bobl am byth.

Pwyllgor Cwmpawd

Leri George
Noel Gibbard
Amanda Griffiths
Christine Jame
Catrin Lewis
Gwynn Williams

Bywyd trwy Farw

Emyr James

Efallai ei bod hi'n eich taro chi'n rhyfedd i sôn am farwolaeth mor agos at y Nadolig? Onid pwrpas yr ŵyl hon yw dathlu genedigaeth Iesu Grist – bywyd newydd yn dod i'r byd? Mae hynny yn wir wrth gwrs; roedd genedigaeth Iesu yn ddigwyddiad hollol unigryw. Mae'n bwysig ei chofio gyda diolchgarwch. Ond mae neges y Beibl hefyd yn dweud llawer am farwolaeth. Yr unig ffordd y deallwn mor rhyfeddol oedd yr hyn a ddigwyddodd **pan** ddaeth Iesu i'r byd yw os ydym yn deall **pam** ddaeth Iesu i'r byd. A'r hyn mae'r Beibl yn ei ddweud yw bod Iesu wedi dod er mwyn delio â phroblem marwolaeth.

Y Creu

Mae'r Beibl yn dechrau gyda disgrifiad rhyfeddol o Dduw yn creu'r byd a phopeth sydd ynddo. Mae'n ddarlun llawn bywyd, tyfiant a ffrwythlondeb. Dyma yw bywyd go iawn – dyn mewn perthynas berffaith â Duw a'r byd o'i amgylch. Ond yn fuan iawn mae'r hanes yn troi'n drychineb wrth i ddyn ddewis troi cefn ar Dduw a bod yn anufudd. Yn union fel y dywedodd Duw, canlyniad hyn oedd marwolaeth y ddynoliaeth. Mae hyn yn digwydd ar ddwy lefel. Ar lefel ysbrydol mae Adda ac Efa yn marw yn syth yn yr ystyr bod pellter bellach rhyngddyn nhw a Duw. Mae rhwyg wedi agor nad ydynt yn gallu ei drwsio. Ar lefel gorfforol maen nhw'n cael eu hanfon o bresenoldeb Duw ac o berthynas ag ef. Yn araf maent yn heneiddio hyd nes eu bod nhw'n marw. Ond mae llygedyn o obaith. Yn gyntaf mae Duw yn dewis peidio â'u lladd nhw'n

syth, ond yn hytrach mae'n lladd anifail dieuog er mwyn rhoi dillad iddyn nhw. Rydym hefyd yn clywed yr addewid cyntaf gan Dduw y bydd yn anfon person i ddelio â'r broblem.

Y Pasg

Mae enghraifft bwysig o farwolaeth i'w gweld yn llyfr Exodus. Bellach mae pobl Dduw yn gaethweision yn yr Aifft. Fel rhan o'u rhyddhau, mae Duw yn dweud ei fod e'n mynd i farnu'r holl wlad, gan gynnwys yr Israeliaid. Roedd y farn hon yn mynd i olygu y byddai mab hynaf pob teulu yn marw fel cynrychiolydd y teulu. Ond roedd Duw hefyd yn cynnig ffordd i osgoi'r gosb. Petai'r teulu yn lladd yr oen gorau oedd ganddynt, ac yn rhoi ei waed ar ddrws y tŷ, byddent yn cael eu harbed. Unwaith eto roedd marwolaeth un dieuog yn cael ei derbyn yn lle marwolaeth rhywun arall.

Y Gyfraith

Mae cyfraith Duw yn llawn cyfeiriadau at farwolaeth. Yn wir, mae'r gyfraith ei hun yn cael ei chyflwyno yng nghyd-destun y dewis rhwng marwolaeth a bywyd, cosb Duw neu fendith Duw. Os yw'r bobl yn dewis byw mewn ufudd-dod i Dduw ac mewn ffordd sydd yn ei blesio yna bydd Duw yn eu bendithio. Hyd yn oed pan fyddent yn pechu, byddai Duw yn sefydlu trefn aberthu anifeiliaid fel bod y bobl yn gallu byw. Ond petai unigolion yn dewis pechu mewn ffyrdd hollol amlwg, oedd yn dangos nad oeddent am ufuddhau, yna roedd canlyniadau difrifol. Roedden nhw naill ai yn cael eu rhoi i farwolaeth, neu yn cael eu hanfon o'r gymuned. Y naill ffordd neu'r llall roedden nhw'n cael eu torri i ffwrdd oddi wrth bobl Dduw, ac oddi wrth Dduw ei hun fel ffynhonnell bywyd.

Y Gaethglud

Mae'n drist darllen am y ffordd y gwnaeth yr Israeliaid, dro ar ôl tro, ddewis anghofio'r Duw oedd wedi gwneud cymaint drostynt. Oherwydd eu pechod fe wnaeth Duw eu cosbi drwy law gwledydd eraill, gan beri iddynt fynd i gaethglud. Mewn ffordd roedd yr hyn a ddigwyddodd i'r genedl yn adlewyrchu profiad y ddynoliaeth. Oherwydd eu hanufudd-dod fe

gawsant eu gyrru allan o'r wlad roedd Duw wedi ei haddo iddynt ac o berthynas â Duw ei hun. Wrth ddisgrifio'r profiad hwn, mae'r proffwydi yn defnyddio'r ddelwedd o farwolaeth ac atgyfodiad. Roedd y genedl wedi marw, ac felly yr unig obaith oedd ganddynt oedd y byddai Duw yn eu hadfer, a dod â nhw'n ôl i fywyd. Er i'r genedl ddychwelyd yn y pen draw i'w gwlad, doedd gobeithion gwych y proffwydi am newid mawr ymhlith y bobl ddim wedi eu gwireddu. Yn wir, roedd llawer o'r Israeliaid yn dal i deimlo eu bod nhw mewn caethiwed, ac felly eu bod nhw'n dal yn farw.

Y Groes

Felly fe welsom drwy gydol yr Hen Destament fod marwolaeth yn gosb oedd yn golygu bod pobl wedi eu torri i ffwrdd oddi wrth Dduw. I'r cyd-destun hwn cafodd Iesu Grist ei eni. Wrth i ni ddarllen am ei weinidogaeth, rydym yn sylweddoli ei fod yn dod â bywyd a ffrwythlondeb i bobl o hyd – roedd e'n rhoi golwg i'r dall, yn gwneud i'r cloff i gerdded, a'r gwahanglwyfus yn lân. Roedd ei berthynas â Duw yn un hollol berffaith; yr union fath o berthynas roedd dyn wedi'i greu ar ei chyfer. Ond er hynny, cafodd Iesu ei groeshoelio. Bu farw yn y ffordd fwyaf dychrynllyd, marwolaeth oedd yn dangos ei fod wedi ei felltithio gan Dduw. Pam oedd rhaid i Iesu ddioddef yn y fath ffordd? Y gwir yw ei fod wedi derbyn y farwolaeth rydym ni'n ei haeddu, ac yn union fel yr oen adeg y Pasg, fe gymerodd ein lle ni. Cafodd ei dorri i ffwrdd oddi wrth ei bobl ac oddi wrth Dduw er mwyn i ni allu bod mewn perthynas â Duw. Ac ar y trydydd dydd, fe atgyfododd. Daeth yn ôl yn fyw, gan ddangos ei fod wedi concro marwolaeth.

Y newyddion da rydym ni'n ei ddathlu eto eleni, yw bod Iesu Grist wedi ei eni ac wedi marw, er mwyn rhoi bywyd tragwyddol i unrhyw un sy'n credu ynddo.

Emyn Plygain

Daeth yr un heb iddo ddechrau,
Daeth i'n byd gan ddwyn ei olau.
Daeth â llawen ddydd ei gofio,
Daeth â mor i nofio ynddo.
Dathlu wnawn ei eni Ef.

Dyma'r un a fynn ein caru;
Un â'i fryd ar ein cyfannu.
Yn ei ddod bu rhannu'n hamser;
Torri'n hanes yn ei hanner,
Wedi'i eni ryfedd Ef.

Yma mae yn un ohonom;
Rhannu'n baich a marw trosom.
Meddyg mawr ein holl glefydau;
Athro doeth a gwych ei eiriau.
Diolch am ei eni Ef.

Yma'n faban, acw'n hongian;
Yma'n cysgu, acw'n gwaedu;
Yma'n gorwedd, acw'n 'mhwedd
Ar ei dad i faddau'n camwedd.
Llawen ddydd ei eni Ef.

Dyma fe yn fyw ryfeddol,
Dacw fe mewn bedd terfynol;
Dyma fe yn wan a llipa,
Acw'n chwalu'r gelyn ola'.
Haleliwia'i ddyfod Ef.

Drychwch fry, mae ar ei orsedd,
Bydd ei deyrnas yn ddiddiwedd.
Drychwch draw, mae'n dyfod eto
A bydd pawb yn plygu iddo.
Croeso mawr ei ddyfod Ef.

Gareth H. Davies

Christopher Love

Noel Gibbard

Prin yw'r wybodaeth am gefndir Christopher Love. Yng Nghaerdydd y ganed ef, ac yn un deg a phedair blwydd oed aeth i wrando ar William Erbery yn pregethu yn Eglwys y Santes Fair. Daeth o'r oedfa ac 'uffern yn ei gydwybod'. O ganlyniad bu'n ddigalon am gyfnod, a cheisiodd ei dad ei rwystro rhag mynychu'r eglwys, a'i gau yn ei ystafell. Ond dianc a wnaeth Christopher, a mynychu'r gwasanaethau a'r canlyniad oedd profi troedigaeth. Trwy gymorth ei fam, a'i weinidog, aeth y bachgen ifanc i Brifysgol Rhydychen, a dod o dan ddylanwad y Piwritaniaid oedd eisiau diwygio'r Eglwys yn ôl patrwm y Testament Newydd. Ar ôl graddio, bu'n pregethu am gyfnod heb ei ordeinio; priododd a chafodd ef a'i wraig, Mary, bum plentyn. Ordeiniwyd ef fel Presbyteriad, ym 1645.

Yng nghyfnod Christopher Love, roedd y mwyafrif o'r Piwritaniaid â'u bryd ar gael gwared o'r Brenin Siarl I. Credent iddo gamddefnyddio ei awdurdod, a'u hawydd oedd sefydlu Gweriniaeth yn lle Brenhiniaeth. Pen draw y gwrthwynebiad oedd dienyddio'r brenin ym 1649. Yr Annibynwyr ac ychydig Bresbyteriaid oedd yn gyfrifol am y weithred, a'r Cymro, John Jones, Maes-y-garnedd yn eu plith. Ond roedd nifer dda o Bresbyteriaid yn gwrthwynebu'r dienyddio, ac yn eu plith roedd Christopher Love, a beirniadodd yntau y weithred a'r Annibynwyr yn gyffredinol. Cytunodd hefyd i weithio gydag eraill er mwyn gwneud Siarl II yn frenin. Pan sefydlwyd y Weriniaeth o dan Oliver Cromwell, cafwyd gwared o bob gwrthwynebwr amlwg, yn cynnwys Christopher Love, a oedd ym marn y Llywodraeth, yn fradwr. Arestiwyd ef, a'i ddedfrydu i'w ddienyddio, ac yntau ond tri deg a thair blwydd oed.

wog Caerdydd

(1618 - 1651)

Ychydig cyn marw, danfonodd lythyr at ei wraig, oedd yn disgwyl ei phumed plentyn. Cyflwynodd un awgrym ar ddeg iddi, yn cynnwys y rhain:

- **Parhewch o dan** weinidogaeth uniongred, fydd yn chwilio'r galon.
- **Peidiwch â meddwl gormod** am y diffyg cysuron. Yn hytrach meddyliwch am y trugareddau sydd gennych.
- **Astudiwch y cyfamod gras,** a haeddiant Crist.
- **Peidiwch â gwrthod priodi,** ond cofiwch briodi yn yr Arglwydd.

Y peth olaf a wnaeth Christopher Love cyn marw oedd gweddïo'n huawdl.

Cofiwn am Christopher Love fel amddiffynydd Presbyteriaeth a'r Frenhiniaeth, a'i farw gwrol. Ei gyfraniad arall, gwerthfawr, oedd ei lyfrau. Roedd yn awdur toreithiog. Meddiannai ddawn i ddadansoddi profiadau ysbrydol, a chynnig cymorth bugeiliol. Roedd wrth ei fodd yn cynorthwyo'r Cristion gwan. Tuedd y Cristion gwan yw meddwl am faint ffydd yn hytrach nag ansawdd ffydd. Nid yw bob amser yn barod i dderbyn cerydd, a medrai Christopher Love geryddu, ond yn syth wedyn byddai'n arllwys yr olew i'r clwyf. A dylai pob Cristion gofio nad yw ffydd wan na ffydd gref yn newid safle y credadun gerbron Duw, a ffynhonnell cysur pob credadyu yw cyflawnder gras yn Iesu Grist.

Mae amryw o'i ddywediadau yn gofiadwy: 'Gall ffydd gref dy ddwyn i'r nefoedd gyda chysur mawr; ond gall ffydd wan dy ddwyn i'r nefoedd yn ddiogel.' A hefyd: 'Pe byddai i'r Arglwydd ddwyn dyn drwg i'r nefoedd, byddai hynny yn uffern iddo. Os na ellir caru gras ar y ddaear, ni ellir ei garu yn y nefoedd'. Un o'i ddywediadau cyn marw oedd, 'Rwy'n mynd o garchar i balas.'

Llyfrau newydd



Porth yr Aur – Cofio J. Elwyn Davies,
Golygwyd gan John Emyr
Gwasg Bryntirion

Dywedir mai'r stôl gadarnaf yw'r un sydd â thair coes, ac mae tair 'coes' i'r cofiant cadarn hwn o'r diweddar, annwyl J. Elwyn Davies.

Y goes gyntaf yw'r bennod sy'n rhagymadrodd safonol gan D. Eryl Davies. Mae'n llwyddo i osod gweinidogaeth Elwyn Davies yn ei gyd-destun. Mae'n gwneud hynny mewn ffordd ysgolheigaidd, ond eto ar yr un pryd yn llwyddo i daro naws bersonol. Mae'n tynnu sylw at bedair athrawiaeth oedd yn ganolog i fywyd a gweinidogaeth Elwyn Davies, a dywed,

> *"Os nad ydyn ni fel Cristnogion ac eglwysi yng Nghymru yn cymryd yr athrawiaethau hyn o ddifrif, does dim hawl gennym i fod yn gadarnhaol ynglŷn â dyfodol yr eglwys yn ein gwlad."*

Y pedair athrawiaeth mae'n cyfeirio atynt yw Yr Efengyl, Ysbrydolrwydd, Undeb Cristnogol ac Eglwysig, a Diwygiad. Mae Eryl Davies yn llwyddo i dynnu sylw at gyfraniad Elwyn Davies mewn ffordd sy'n rhoi calon ddiolchgar i ni ar un llaw ac yn ein hannog ni i ddyfalbarhau ar y llaw arall.

Yr ail goes yw'r teyrngedau a'r atgofion personol Mae'r atgofion yn amrywiol o ran natur ac o ran hyd. Maent yn cyfeirio ato fel gweinidog, tad, cydweithiwr,

cynghorwr ac efengylydd. Bydd teitlau rhai ohonynt yn rhoi blas i chi, *'Atgofion Cynnar'*, *'Dyn y Weledigaeth'*, *'Tad yn y Ffydd'*, *'Arweinydd Doeth'*, *'Ar yr Aelwyd'*, *'Cynghorwr Da a Phregethwr Proffwydol'*.

Y drydedd goes yw detholiad o ysgrifau J. Elwyn Davies. Cawn gyfle i glywed ei lais ef ei hun, fel petai. Mae'r rhain eto yn amrywiol ac yn rhoi cipolwg i ni o'i ddawn lenyddol, o'r dyn fel person ac o'i allu diwinyddol. Er bod yr ysgrifau wedi eu hysgrifennu i nodi achlysuron arbennig ac ar gyfnodau arbennig, mae eu cynnwys, yn ddieithriad, yn dal i fod yn hynod o berthnasol. Pam? Am fod Gair Duw, oedd mor ganolog i holl weinidogaeth Elwyn Davies, yn berthnasol bob amser, wrth gwrs.

Diolch, felly, i John Emyr am fynd ati i olygu'r gwaith mor ofalus. Buom fel eglwys yn ystyried yn ddiweddar, 'A yw cofio yn bwysig?' Wrth bori yn y gyfrol hon rwy'n hyderus y byddwch yn cytuno bod cofio yn bwysig ac yn werthfawr iawn.

Catrin Lewis

Gwneud Marc,
Emyr James
Gwasg Bryntirion

Pan gefais i'r cyfle i gael cipolwg ar ddrafft o'r llyfr hwn, bachais ar y cyfle.

Llyfr o nodiadau astudio yn benodol ar Efengyl Marc yw hwn. Efengyl Marc yw llyfr byrraf y Testament Newydd, ac mae'n sôn am fywyd Crist o safbwynt Marc, un o ddisgyblion Iesu. Mae'r llyfr wedi ei drefnu yn glir ac yn syml. Ym mhob pennod mae tua 8 adnod yn cael eu trafod, ac mae nodiadau, cwestiynau ac esboniad byr o'r darn o dan sylw. Rwyf yn sicr bydd y llyfr hwn yn gymorth i nifer o Gristnogion, gan fod y nodiadau yn gryno, yn rhoi cyfle i ni allu myfyrio a dysgu o'r Gair. Mae bwyd ysbrydol yn hanfodol i ni dyfu yn y ffydd, ac yn y llyfr hwn gwelwn fod y Gair yn ganolbwynt i'r trafod. Rwyf wedi profi wrth ailddarllen rhannau o'r Beibl fod rhywbeth newydd yn dod i'r golwg bob tro ac yn peri i mi feddwl eto am ras a thangnefedd yr Arglwydd a'i gariad tuag atom.

Luned Evans

Ymsugno o'r Gair

Trystan Hallam

Mae'n siŵr fod y mwyafrif ohonom yn gyfarwydd â'r broses o olchi'r car. Beth sydd angen arnoch chi? Bwced o ddŵr a sbwng. Rhoi'r sbwng yn y bwced, yna aros i'r sbwng i sugno'r dŵr - ac yna'n gwasgu'r dŵr allan o'r sbwng dros y car wrth ei olchi. Ond beth sy'n digwydd pan fod y sbwng wedi sychu? Wel, mae'n rhaid ei foddi unwaith eto yn nŵr y bwced. Mae gwaith gweinidogaethol mewn Eglwys yn debyg iawn i waith sbwng - darllenwn y Gair yn ddefosiynol, gallwn wrando ar bregethau ar i-pods ac ati - ac eto, fel yr hen sbwng, cawn ein gwasgu'n sych ar adegau. Mae angen i weision yr Arglwydd glywed pregethu a dysgeidiaeth fyw - yn y cnawd, fel petai. Felly yn ystod y misoedd diwethaf bu aelodau o'r tîm gweinidogaethol yn bresennol mewn dwy gynhadledd ar gyfer gweinidogion. Cynhaliwyd y ddwy gynhadledd yn y Bala yng Nghanolfan Mudiad Efengylaidd Cymru.

Gyda'r dail yn syrthio ac yn garped o liw ar y ffordd yng nghanol Mis Hydref – aeth Gwynn ein gweinidog, Emyr a Trystan i Gynhadledd ar gyfer arweinyddion Cymraeg eu hiaith. Braf oedd cael cymdeithas gydag eraill sydd â baich dros y Cymry Cymraeg. Pwnc y gynhadledd oedd y tensiwn rhwng y gweinidog fel arweinydd a'r gweinidog fel gwas. Y prif siaradwr oedd y Parch Stuart Ollyot. Cafwyd cyfraniadau gwerthfawr gan Meirion Morris, Derrick Adams, Dr. Eryl Davies, a John Treharne. Yr argraff a grëwyd arna i yn bersonol oedd fod y gweinidog yn arweinydd, **ond** bod natur ei arweinyddiaeth i'w weld wrth iddo wasanaethu yn yr Eglwys. Nid unben, ond gwas, a thrwy'r gwasanaeth hwnnw yn arwain y praidd. Braf oedd cael rhannu siwrne car gyda Gwynn, Dr. Eryl ac Emyr – roedd hynny'n gynhadledd fuddiol ynddo'i hunan!

Cynhaliwyd yr ail gynhadledd ddiwedd mis Tachwedd. Cynhadledd wahanol wedi ei

threfnu ar gyfer gweinidogion sydd yn newydd yn y gwaith. Testun y gynhadledd oedd y ffordd y dylai'r gweinidog ddiogelu ei galon ei hun. Pwnc heriol, ac angenrheidiol. Sut all Emyr a minnau dystio i Grist os nad yw ein bywydau personol yn agos i'n Gwaredwr? Y Parch Paul Mallard o Birmingham oedd y prif siaradwr. Cafodd fy nghalon ei chynhesu a'i herio wrth wrando arno'n pregethu ar Salm 19, Salm 90, a gweddi Paul ar ddiwedd Effesiaid 3. Bu pregethu Phil Swann (Llanelli) a Stuart Olyott hefyd yn fuddiol. Braf hefyd oedd y cwrdd gweddi dan lywyddiaeth y Parch Sulwyn Jones.

Diolch i aelodau'r Eglwys yng Nghaerdydd am eu parodrwydd a'u cefnogaeth yn gadael i ni'n tri fynychu'r cynadleddau yma dros dymor yr Hydref. Wrth i'r arweinyddion a fynychodd y cynadleddau wasanaethu yn eu heglwysi, gweddïwn ar i'r Ysbryd Glân wasgu pob diferyn o'r fendith a wnaethom ni ei phrofi, fel bod ein brodyr a'n chwiorydd yn elwa, a'r Arglwydd Iesu Grist yn cael ei ogoneddu.



Newyddion

Ymgyrch myfyrwyr
Yn ystod wythnos gyntaf Rhagfyr unodd Undebau Cristnogol Caerdydd i gynnal wythnos efengylu o'r enw 'Chi'n Siŵr?' Cynhaliwyd amryw o ddigwyddiadau, yn ogystal â chyfarfodydd ar y cyd bob nos i ledu'r efengyl i holl fyfyrwyr Caerdydd. Roeddwn yn ddiolchgar iawn am y cyfle anhygoel yma ond yn cofio pa mor hanfodol yw gweddi ac mai dim ond trwy bŵer Duw yr ydym yn mynd i weld llwyddiant. Byddwn yn gwerthfawrogi yn fawr os byddwch yn gweddïo ar i Dduw fendithio'r gwaith.

Gerwyn Lewis

David ac Anne James Morse
Parhawn i gofio David ac Anne James Morse yn ein gweddïau wrth iddynt ddod i ddiwedd taith bregethu yn yr Ynysoedd Dedwydd.

Llongyfarchiadau
Ers cyhoeddi rhifyn diwethaf *Cwmpawd*, cafodd Elliw, Iolo a Gwion chwaer fach, Mirain. Llongyfarchiadau mawr i Rhodri ac Anwen hefyd!

Emyr James
Mae Emyr bellach wedi gorffen ei gyfnod yn eglwys Emmanuel, Casnewydd. Bydd e nôl gyda ni tan mis Chwefror, pan fydd e'n treulio deufis mewn eglwys yn Llaneirwg dan hyfforddiant Andy Christofidies.

Siwrne Saff...
Wedi croesawu Emyr a Catrin yn ôl, byddwn yn ffarwelio â Gwynn a Lis am ychydig wythnosau. Byddant yn ymweld â Hywel yn Seland Newydd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

Trefniadau Nadolig:

Nos Sul – Rhagfyr 4
Oedfa garolau

Nos Sul – Rhagyfr 11
Oedfa garolau yn yr Eglwys Newydd

Pnawn Sadwrn – Rhagfyr 17
Parti Nadolig

Bore Sul - Rhagfyr 18
Gwasaneth Carolau teuluol

Bore Sul - Rhagfyr 25
Gwasanaeth Dydd Nadolig

Nos Sul - Rhagfyr 25
Oedfa anffurfiol

I'r Dyddiadur

Yn ystod yr wythnos...

Clwb Hapus Awr | nos Lun | 5.30 - 6.30pm
Cyfarfod Gweddi | nos Fawrth | 7.40pm
Paned a Sgwrs | bob yn ail fore Mawrth | 10.00am
Cylch y Plant Bach | bore Gwener | 10.00 - 11.30am
Clwb y Bobl Ifainc | nos Wener | 7.00pm

Cynhelir y gweithgareddau uchod yn adeilad yr eglwys, ar wahan i Glwb Hapus Awr a gynhelir yn Ysgol Gynradd Melin Gruffydd.

Ar ddydd Sul...

Oedfaon am 10am a 6pm yn adeilad yr eglwys ar gornel Stryd Rhymni/ Stryd Harriet, Cathays, Caerdydd. Mae paned yn dilyn pob oedfa, a chynhelir yr Ysgol Sul yn ystod tymhorau'r ysgol (11.45 – 12.30am).

Rhagfyr	*4*	*Gwynn Williams / Noson Garolau*
	11	*Gwynn Williams*
	18	*Trystan ac Emyr / Trystan Hallam*
	25	*Trystan Hallam / Gwydion Lewis*
Ionawr	*1*	*Emyr James*
	8	*Trystan Hallam*
	15	*I'w drefnu*
	22	*Emyr James*
	29	*Gwynn Williams*

Eglwys Efengylaidd Gymraeg Caerdydd
Stryd Rhymni
Cathays, Caerdydd

www.cwmpawd.org